



# CYNHAEAF Y CNAU

## GWEITHGAREDDAU DOSBARTH

Mae cysylltiadau â'r cwricwlwm Addysg Grefyddol, Daearyddiaeth ac ADCDF.

Mae'r gweithgareddau dosbarth hyn yn cyd-fynd â'r gwasanaeth ysgol *Cynhaeaf y Cnau* sydd ar gael i'w lawr lwytho o'r wefan [christianaid.org.uk/learn](http://christianaid.org.uk/learn)

Cafodd yr adnoddau hyn eu datblygu er mwyn helpu eich ysgol i ddathlu'r Cynhaeaf ac i fyfyrion ar y gwaith mae partneriaid Cymorth Cristnogol yn ei wneud i warchod coedwig law yr Amazon a chefnogi'r bobl sy'n byw yno.

### GWEITHGAREDD 1: Y GOEDWIG A'R DDINAS

Gofynnwch i'r disgyblion sefyll yng nghanol yr ystafell ddosbarth. Dywedwch wrthyn nhw fod un ochr yr ystafell yn cynrychioli dinas, tra bo'r ochr arall yn cynrychioli coedwig law. Dylai pawb symud i'r rhan o'r ystafell maen nhw'n teimlo sy'n cyfateb orau i'r geiriau fyddwch chi'n eu gwaeddi:

- coed
- anifeiliaid
- pobl
- siopau
- bwyd
- llygredd
- lle mae pethau pwysig yn digwydd

Gallech drafod eu hatebion:

**Coed:** er bod coed mewn dinasoedd, does dim cymaint ag a geir mewn coedwig law. Mae coedwig law yr Amazon yn Brasil yn gartref i biliynau lawer o goed!

**Anifeiliaid:** Gofynnwch i'r disgyblion pa fathau o anifeiliaid allech eu cael mewn dinas, a pha fathau allech eu cael mewn coedwig law. Mae dinas yn gartref i rai anifeiliaid cyfarwydd iawn i ni: cŵn, cathod, colomennod, gwiwerod. Mae coedwig law yr Amazon yn gartref i anifeiliaid rhyfeddol ac anarferol, fel dolffiniaid afon, twcaniaid, mwncïod a'r jagwar – yn ogystal â miliynau o wahanol bryfed. Mewn gwirionedd, mae chwarter yr holl anifeiliaid, (sy'n byw ar y tir) yn byw yn y goedwig law.

**Pobl:** Efallai eich bod yn cysylltu pobl gyda dinasoedd, gan mai dyna ble mae'r rhan fwyaf o bobl yn byw. Ond mae yna bobl yn byw yn y goedwig law hefyd – byddwn yn darganfod mwy am eu bywydau nhw yn nes ymlaen.

**Siopau:** Mae siopau, yn sicr, yn perthyn i ddinas. Cewch chi fawr ddim siopau yn y goedwig law, er bod y bobl sy'n byw yno angen bwyd, wrth gwrs.

**Bwyd:** Mae pawb, ymhob man, angen bwyd. Felly, er bod pobl sy'n byw mewn dinasoedd yn tueddu i brynu eu bwyd mewn siopau, mae pobl y goedwig law yn cynaeafu bron y cyfan o'u bwyd o'r goedwig ei hun.

**Llygredd:** Dyma rywbeth a gysylltw'n â dinasoedd, sy'n aml yn fudr ac yn llawn o geir a ffatrioedd. Ond mae llygredd yn broblem yn y goedwig law hefyd, oherwydd mae'r goedwig law yn chwarae rhan bwysig yn amsugno rhai o'r nwyon sy'n llygru a niweidio ein planed.

**Lle mae pethau pwysig yn digwydd:** Mae llawer ohonom yn meddwl am ddinasoedd fel y manau lle mae pethau pwysig yn digwydd (gofynnwch i'r disgyblion am enghreifftiau o bethau pwysig sy'n digwydd mewn dinasoedd). Ond fel clywsom ni, mae pethau pwysig yn digwydd yn y goedwig law hefyd, a byddwn yn dod i wybod mwy am hynny heddiw.

## GWEITHGAREDD 2: STORI DIELEM

---

Dosbarthwch y daflen waith sy'n adrodd hanes Dielem a gofynnwch i'r disgyblion ystyried ym mha ffyrdd mae eu bywydau nhw'n debyg ac yn wahanol i'w bywyd hi. Mae plant yn tueddu i ganolbwyntio ar wahaniaethau, felly anogwch y disgyblion i archwilio'n fwy manwl y pethau sy'n gyffredin rhyngddyn nhw a Dielem.

Nodyn: efallai y byddai disgyblion iau'n elwa o wneud hyn trwy ddarllen ar y cyd neu o dan arweiniad.

## GWEITHGAREDD 3: FFRINDIAU'R GOEDWIG

---

Os bydd y disgyblion eisoes wedi gwranddo ar y gwasanaeth *Cynhaeaf y Cnau*, byddant yn gwybod am gylchred bywyd rhyfeddol y goeden gnau Brasil, sy'n dibynnu ar wenynen arbennig i'w pheillio ac anifail bach o'r enw agouti i blannu ei hadau. Os na fydd y disgyblion wedi clywed y gwasanaeth, gallech ei ddarllen iddyn nhw yn y dosbarth a dangos y sioe sleidiau (mae'r gwasanaeth a'r sioe sleidiau ar gael i'w lawr lwytho o [christianaid.org.uk/learn](http://christianaid.org.uk/learn)).

Dosbarthwch y daflen waith *Ffrindiau'r Goedwig* a gofynnwch i'r disgyblion liwio a thorri allan yr agouti, y wenynen a'r goeden gnau Brasil. Wedyn gallant ddefnyddio'r rhain i greu darluniau (lluniau neu *collages*) o'r goedwig law.

## GWEITHGAREDD 4: CYLCHREDAU BYWYD YN Y GOEDWIG LAW

---

Dosbarthwch y daflen waith *Cylchredau bywyd yn y goedwig law* a gofynnwch i'r disgyblion egluro yn eu geiriau eu hunain sut mae'r goeden gnau Brasil yn dibynnu ar y wenynen a'r agouti. Mae'r cwestiynau yn ceisio annog y disgyblion i feddwl yn fwy eang, i ystyried sut mae Dielem a'i chymuned quilombola yn dibynnu ar y goedwig law, sut mae'r goedwig law yn dibynnu arnyn nhw ac, yn y pen draw, sut rydyn ni i gyd yn dibynnu ar y goedwig law.

## GWEITHGAREDD 5: GOFALU AM EIN BYD

---

Eglurwch i'r disgyblion sut mae Dielem a'i chymuned yn cael eu cefnogi gan CPI, sy'n un o bartneriaid Cymorth Cristnogol. Mae Cymorth Cristnogol yn rhoi arian i CPI, mudiad sy'n gweithio yn y goedwig law gyda chymuned Dielem er mwyn sicrhau nad yw cwmnïau mawrion yn torri lawr yr holl goed sydd yn y goedwig.

Dosbarthwch y daflen waith *Gofalu am ein byd*, sy'n gofyn i'r disgyblion roi tri rheswm pam mae'n bwysig gwarchod y goedwig law. Anogwch nhw i feddwl am bopeth maen nhw wedi'i ddysgu am y goedwig law – am yr anifeiliaid, y planhigion a'r bobl sy'n byw yno, ac am y ffordd mae'r goedwig law yn chwarae rhan bwysig i atal llygredd.



# TAFLEN WAITH GYNRADD

## STORI DIELEM

### Hoff bethau Dielem

Hoff liwiau: pinc a choch

Hoff hobiau: tynnu lluniau a nofio

Hoff fwydydd: reis a chrwban dŵr

Hoff ffordd o deithio: mewn cwch

Hoff le cysgu: mewn hamoc

Mae Dielem yn wyth oed ac yn byw yng nghoedwig law yr Amazon.

Mae hi wrth ei bodd yn mynd i'r ysgol i chwarae gyda'i ffrindiau a dysgu llawer o bethau diddorol. Ei hoff bwnc yw mathemateg. Mae'n dal cwch sy'n mynd â hi ar hyd yr afon i'r ysgol. Mae hi hefyd yn hoffi pan fydd yr ysgol wedi dod i ben am y dydd ac mae hi'n gallu newid o'i gwisg ysgol a mynd i chwarae gyda'i brodyr.

Ei hoff ddiddordeb yw nofio, er bod rhaid iddi fod a'i llygaid ar agor am grocodeilod yn yr afon. Unwaith y flwyddyn mae hi'n ymuno â gweddill ei theulu, a holl bobl ei phentref, i fynd ar daith gyda'i gilydd. Maen nhw'n mynd yn ddwfn i'r goedwig i chwilio am gnau Brasil. Maen nhw'n casglu'r rhai sydd wedi disgyn o'r coed a dod â nhw nôl adref. Mae'r cnau'n flasus iawn ac yn fwyd pwysig i Dielem am eu bod yn llawn o fitaminau a



mwynau pwysig sydd eu hangen ar bobl i gadw'n iach.

Adeg ei phen-blwydd, bydd Dielem a'i theulu'n aml yn dathlu gyda barbeciw o'i hoff fwydydd.

Allwch chi ddod o hyd i dri pheth sy'n debyg ym mywyd Dielem a'ch bywyd chi?

Allwch chi ddod o hyd i dri gwahaniaeth?

Beth ydych chi'n meddwl sy'n swnio'n dda am fywyd yn y goedwig lle mae Dielem yn byw?



# TAFLEN WAITH GYNRADD FFRINDIAU'R GOEDWIG

Lliwch a thorrwch allan luniau'r agouti, y wenynen a'r goeden gnau Brasil. Allwch chi eu defnyddio i greu darlun o'r goedwig law? Gallwch dynnu lluniau neu baratoi *collage* i ddangos rhai o'r coed, y planhigion a'r anifeiliaid eraill yn y goedwig law.

Ceisiwch gynnwys y pethau hyn yn eich darlun:



Dielem yn gofalu am goeden.




Agouti yn claddu cneuen Brasil yn y ddaear.



Gwenynen yn peillio coeden gnau Brasil.



Mathau eraill o anifeiliaid sy'n byw yn y goedwig law  
(gallwch chwilio amdanynt mewn llyfr neu ar y we os ydych am fwy o syniadau).





# TAFLEN WAITH GYNRADD CYLCHREDAU BYWYD YN Y GOEDWIG LAW



Pam fod y goeden gnau Brasil angen y wenynen a'r agouti?

---

---

---



Pam fod Dielem a'i theulu angen cnau Brasil?

---

---

---



Pam fod y goedwig law angen pobl fel Dielem?

---

---

---



Pam fod pob un ohonom ni angen y goedwig law?

---

---

---

Allwch chi ddangos rhai o'r cylchredau bywyd hyn drwy dynnu llun isod o'r pethau sy'n dibynnu ar ei gilydd?





# TAFLEN WAITH GYNRADD GOFALU AM EIN BYD

Allwch chi feddwl am dri rheswm pam mae'n bwysig gwarchod y goedwig law? Ysgrifennwch eich atebion ar y dail.



Sut mae Cymorth Cristnogol yn helpu i ofalu am ein byd?

---

---

Pa fath o bethau allwch chi eu gwneud i helpu gofalu am ein byd?

---

---